

# Arolwg Tîm Rheoli BBC Cymru 2015/16

# “Mae’r sialens ry’n ni wedi’i gosod yn glir: i glywed mwy o straeon am Gymru ar y sgrîn ar draws Cymru, ac ar draws y DU.”

Os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth am flwyddyn y BBC – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus eraill – yna ewch i’r wefan bbc.co.uk/arolwgblynyddol

**Cynnwys**

01 Cyflwyniad y Cyfarwyddwr
02 Crynodeb dwy funud
05 Perfformiad y gwasanaethau
15 Edrych ymlaen
17 Ffeithiau a ffigyrau
18 Y tîm rheoli
19 Cysylltu

**Clawr**
*Hinterland*

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

> "Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi gweld dadl gref ynglŷn â dyfodol y BBC yng Nghymru. Mae hynny i'w groesawu'n wresog."



Wrth edrych yn ôl, efallai mai'r llynedd oedd y llonyddwch cyn y storm. Cyfle i flasu llwyddiant Cymru yn cyrraedd pencampwriaeth Euro 2016, heb wybod y stori anhygoel oedd ar y gweill yn Ffrainc. Cyfle i ddarparu arlwy diguro o Etholiad Cyffredinol y DU, flwyddyn yn unig cyn i'n sefydliadau gwleidyddol gael eu siglo i'r byw gan Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd.

Gwelwyd nifer o uchafbwyntiau creadigol ar hyd y ffordd: daeth *Sherlock* a *Hinterland* yn eu hôl, cyfres wych *War & Peace* (a addaswyd gan hoff fab Rhiwbeina, Andrew Davies), *BBC Canwr y Byd Caerdydd*, a dechrau cystadleuaeth newydd sbon i BBC Cymru, *BBC Young Dancer*. Yn ogystal, mae ein harlwy newyddion wedi parhau i roi sylw i ddigwyddiadau yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys darllediadau awdurdodol *Newyddion 9* yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ym Mharis.

Dyma'r flwyddyn lle bu'n cerddorfa arbennig yn swyno cynulleidfaoedd ar draws De America fel rhan o'n dathliadau Patagonia 150. Yn ogystal, gwnaed y cyfraniad mwyaf eto i rwydweithiau'r BBC a dechreuodd un o brosiectau adfywio mwyaf Caerdydd, gyda'n pencadlys newydd yn y Sgwâr Canolog.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi gweld dadl gref ynglŷn â dyfodol y BBC yng Nghymru. Mae hynny i'w groesawu'n wresog. Dim ond drwy ei amddiffyn i'r carn y gall darlledu cyhoeddus dyfu a ffynnu. Bydd rhaid craffu'n fanwl a pheidio â bod ofn bod yn uchelgeisiol ynglŷn â'r hyn y gallwn ei gyflawni a'r newid all ddod o hynny.

Mae'r sialens ry'n ni wedi'i gosod yn glir: i glywed mwy o straeon am Gymru ar y sgrîn ar draws Cymru, ac ar draws y DU. Dyma'r math o sialens greadigol ry'n ni'n ei mwynhau.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant parhaus y BBC yng Nghymru, ac sydd wedi dweud eu dweud o blaid y sefydliad ar adeg mor bwysig.

**Rhodri Talfan Davies**
**Cyfarwyddwr, BBC Cymru**

# Crynodeb dwy funud

## Ffeithiau a ffigyrau am berfformiad a chynnyrch BBC Cymru

### BBC Cymru ar y rhwydweithiau
Y gynulleidfa ar gyfer rhifyn arbennig *Sherlock*, ddydd Calan ar draws bob platfform





### Chwaraeon BBC Cymru
Nifer o weithiau y cafodd tudalen Chwaraeon BBC Cymru ar Facebook ei gweld yn ystod yr wythnos lle cyrhaeddodd Cymru Euro 2016 a gêm Awstralia yng Nghwpan Rygbi'r Byd





### Gwerthfawrogiad cynulleidfa
Sgôr gwerthfawrogiad cynulleidfa (allan o 100) ar gyfer *Nigel Owens: True to Myself*





### Ar-lein Cymraeg
Canran o'r cynnydd yn nifer y porwyr unigryw wythnosol ar gyfer ein gwefannau Cymraeg, o'i gymharu â 2014-15




**Cymeradwyaeth o'r BBC yng Nghymru**
(sgôr cymedrig allan o 10)
Ffynhonnell: ART/Kantar




**Cyrhaeddiad wythnosol teledu**
(yn seiliedig ar gyrhaeddiad 15 munud di-dor) (miloedd)
Ffynhonnell: BARB



# Crynodeb dwy funud

## Ffeithiau a ffigyrau am berfformiad a chynnyrch BBC Cymru

### Cyrhaeddiad cynulleidfa

Oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio teledu, radio neu ar-lein y BBC bob wythnos



97%

### Cyfanswm yr amser a dreuliwyd


Yr amser mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos



19:29awr

### Cynrychioli'r cenhedloedd

Pobl yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn cynrychioli eu bywydau mewn cynnwys newyddion a materion cyfoes





### Rhaglenni teledu rhwydwaith


Canran o gyllideb teledu'r rhwydwaith sy'n cael ei wario yng Nghymru




**Ar-lein BBC Cymru: Porwyr Unigryw Wythnosol**
(miloedd)
Ffynhonnell: BBC




**Cyrhaeddiad Wythnosol Radio (oedolion)**
(miloedd)
Ffynhonnell: RAJAR/RSMB/Ipsos-MORI



# Crynodeb dwy funud

## Teledu Saesneg BBC Cymru
**Y Deg Cyfres Fwyaf Poblogaidd a'r Pum Rhaglen Unigol Fwyaf Poblogaidd 2015/16**

### Cyfresi Saesneg

| | |
|---|---|
| Max's World Cup Warm-Up | 322,000 |
| Wales Today am 6.30pm | 272,000 |
| Iolo's Brecon Beacons | 262,000 |
| Hinterland | 240,000 |
| X-Ray | 207,000 |
| Wales Today am 10.25pm | 191,000 |
| The River Taff with Will Millard | 181,000 |
| Rhod Gilbert's Work Experience | 177,000 |
| Welsh Heartland: The Llŷn Peninsula | 172,000 |
| Curry Wars | 172,000 |

### Rhaglenni Saesneg

| | |
|---|---|
| Scrum V Live: Wales v Italy | 336,000 |
| Rob Brydon at 50 | 282,000 |
| The Real Mike Phillips | 262,000 |
| Nigel Owens: True to Myself | 253,000 |
| Patagonia with Huw Edwards | 215,000 |

## BBC Cymru ar S4C
**Y Deg Cyfres Fwyaf Poblogaidd a'r Pum Rhaglen Unigol Fwyaf Poblogaidd 2015/16**

### Cyfresi ar S4C

| | |
|---|---|
| Clwb Rygbi (Pro12) | 48,000 |
| Pobol y Cwm | 45,000 |
| Clwb Rygbi Rhyngwladol | 36,000 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol: Mwy o'r Maes | 30,000 |
| Newyddion 9 | 18,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Seremonïau | 16,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Noson o Gystadlu | 15,000 |
| Pawb a'i Farn | 15,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Y Babell Lên | 11,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Prynhawn | 10,000 |

### Rhaglenni ar S4C

| | |
|---|---|
| Patagonia Huw Edwards | 38,000 |
| Cwpan FA: Casnewydd v Blackburn Rovers | 34,000 |
| Nadolig Llawen Cwmderi | 34,000 |
| Bois y Bac | 23,000 |
| SOS Yr Wyddfa: Newyddion Arbennig | 21,000 |

Ffynhonnell: BARB
Ffigyrau'n cynnwys unrhyw ail-ddarllediadau o fewn yr un wythnos


**Max's World Cup Warm-Up**


**Clwb Rygbi (Pro12)**

# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC One Wales a BBC Two Wales

Dechreuodd y flwyddyn gyda thymor llwyddiannus arall, wrth i ni fwrw golwg fanwl ar Ogledd Cymru. Yn dilyn *Real Valleys* yng ngwanwyn 2015, archwiliwyd *Real North Wales* gyda Siân Lloyd yn gosod y tymor yn ei gyd-destun, Mari Griffith yn archwilio celf yn *Inspired by Snowdonia* a Nerys Hughes yn dadlau'r achos dros *Liverpool: Capital of North Wales*. Wrth i'r tymor barhau, teithiodd Laurence Llewelyn-Bowen i ymweld â rhai *Extraordinary Ordinary Homes*, a bu Carol Vorderman yn hedfan ym Mrychdyn. Ysgogodd y rhaglen *Make Me Welsh,* ynglŷn ag addysg plant sydd wedi symud i'r ardal, a ddarlledwyd yn ystod oriau brig ar BBC One Wales, gryn drafodaeth ar draws ein gwasanaethau. Bu *Welsh Heartland – The Llŷn Peninsula* a *Flint Des Res* yn llwyddiannus ar BBC One Wales, tra dadlenodd y ffarmwr Gareth Wyn Jones gymhlethdodau *The Farmer* and *The Food Chain* mewn cyfres materion cyfoes dair rhan.

Am y tro cyntaf, darlledwyd Hanner Marathon Caerdydd yn fyw. Bu'n ysgogiad ar gyfer nifer o raglenni a arweiniodd at greu tymor byr o raglenni ynglŷn â byw'n hirach a chadw'n iach sef *Live Longer Wales/Hir Oes Cymru*. Gosodwyd her i gyn-gapten rygbi Cymru, Gareth Thomas, wrth iddo hyfforddi criw o fenywod o'r Cymoedd i redeg Hanner Marathon Caerdydd. Bu'r cogydd Michela Chiappa, sydd â'i gwreiddiau yng Nghymru a'r Eidal, hefyd yn edrych ar gyfrinachau byw yn hen yn *How to Live to a Hundred*.

Yn y flwyddyn newydd, canolbwyntiwyd ar addysg plant Cymru. Cymharodd golygydd addysg y Sunday Times, Sian Griffiths, berfformiad plant Cymru o'i gymharu â'r rheiny o wledydd eraill, gan ofyn pam ein bod ni ar ei hôl hi yn ddiweddar. Gwnaeth y cyflwynydd newyddion Lucy Owen benderfyniad cyhoeddus iawn ynglŷn ag addysgu ei mab yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac aeth Wynne Evans, Behnaz Akhgar ac Omar Hamdi nôl i'r ysgol i ail-eistedd arholiadau TGAU.

Cynhyrchwyd tymor o raglenni ar ddelwedd y corff. Dangoswyd *Young, Welsh and Pretty Skint* am y tro cyntaf ar wefan BBC Three a BBC iPlayer. Bu'r gyfres *Body Matters* yn delio ag anabledd, trawsrywioldeb, anorecsia ac obsesiwn â'r corff, gyda nifer o'r rhaglenni hyn yn perfformio'n arbennig o dda ar BBC iPlayer.


Cafwyd nifer o lwyddiannau eraill hefyd – gwnaeth rhaglenni fel *Patagonia with Huw Edwards, Rob Brydon at 50, Blitz Wales with John Humphrys, Nigel Owens: True to Myself, Tim Rhys Evans: All in the Mind, Curry Wars, The Real Mike Phillips, Before I Kick the Bucket,* ac *I'll Sing Once More: Connie Fisher* adael eu marc ar Gymru ac ar draws rhwydweithiau'r BBC. Mae'r gyfres ddrama ddwyieithog *Hinterland*, sydd wedi'i lleoli yn Aberystwyth, yn parhau i fod yn llwyddiannus. Perfformiodd yr ail gyfres yn dda ar BBC One Wales a BBC Four.

Parhaodd y cyflwynwyr a'r cyfresi cyfarwydd i ddenu cynulleidfaoedd. Yn eu plith, *The Brecon Beacons with Iolo Williams, Rhod Gilbert's Work Experience, Weatherman Walking* gyda Derek Brockway ac *X-Ray*. Gwnaeth dau gyflwynydd newydd eu marc ar BBC Cymru: Will Millard ar yr afon Taf a *Kate Humble: My Welsh Sheep Dog's Tale*. Cafodd *Battling with Benefits* ei gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd yma ac ar BBC iPlayer yn enwedig.

Mae rhaglenni BBC Cymru ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales wedi'u croesawu'n frwd gan ein cynulleidfaoedd, gyda sgôr gwerthfawrogiad o 81.6 allan o 100 ar gyfartaledd, ychydig yn uwch na'r ffigwr ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a ddangosir ar y sianeli (81.0).




**Cyn-gapten Cymru Gareth Thomas yn *Run For Your Life***



**Rowena Kincaid yn adrodd y stori am ei chanser yn *Before I Kick The Bucket***

# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Cymru ar y Rhwydweithiau

Mae cynyrchiadau Drama BBC Cymru wedi parhau i ysbrydoli cynulleidfaoedd yn y DU ac ar draws y byd. Ym mis Hydref, lansiwyd nawfed cyfres *Doctor Who*, sy'n cael ei ffilmio yn ein stiwdios ym Mhorth y Rhath. Gwelwyd y ffigyrau gwylio uchaf erioed yn America a Chanada, ac enwebiad BAFTA ar gyfer yr Actor Cynorthwyol Gorau yn ogystal ag enwebiadau yn y Gwobrau Teledu Cenedlaethol a Gwobrau TV Choice. Yn rhyngwladol, ail-lansiwyd y gyfres yn America Ladin gydag ymweliad gan Peter Capaldi â Mecsico. Mae ein platfformau cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i dyfu, o dan arweiniad ein tîm cynnwys digidol ym Mhorth y Rhath. Mae'r *Doctor Who Game Maker* – sy'n helpu pobl i greu eu gêm ar-lein eu hunain – wedi ennill Gwobr Ddigidol Broadcast. Rhifyn Nadolig *Doctor Who*, gydag Alex Kingston, Matt Lucas a Greg Davies, oedd un o uchafbwyntiau amserlenni'r ŵyl.

Daeth *Sherlock* yn ôl i'r sgrîn ar Ddydd Calan gyda rhaglen 90 munud arbennig. Dyma'r rhaglen fwyaf poblogaidd dros gyfnod y Nadolig gyda bron i 13 miliwn o wylwyr ar bob platfform. Fe'i dangoswyd mewn 119 o leoliadau ar draws y DU ar yr un pryd.

Darlledwyd addasiad chwe-rhan Andrew Davies o *War & Peace* gan Tolstoy, a ffilmiwyd mewn lleoliadau ar draws Rwsia, Lithwania a Latfia, ar BBC One ym mis Ionawr 2016 yn ogystal ag America. Gyda phennod hirach i gloi'r cyfan, derbyniodd y gyfres glod gan feirniaid a'r gynulleidfa, gan ddenu 7.1 miliwn ar gyfartaledd ar draws y DU. Perfformiwyd y gerddoriaeth, a gyfansoddwyd yn arbennig gan Martin Phipps, gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Bu'n flwyddyn wych i *Casualty* wrth iddi baratoi ar gyfer ei phen-blwydd yn 30 oed nes ymlaen yn 2016. Mae'r gyfres wedi cynnal cynulleidfa gref, ac ym mis Mawrth, derbyniodd Wobr Arbennig TRIC i gydnabod ei chyfraniad parhaus i fyd y ddrama deledu.

Mae timau Ffeithiol a Cherddoriaeth BBC Cymru hefyd wedi cael blwyddyn dda. Lansiwyd cystadleuaeth newydd sbon, *BBC Young Dancer*, ar BBC Four, gan gynnwys 20 o ddawnswyr ifanc mwyaf talentog Prydain. Darlledwyd y rownd derfynol yn fyw ar BBC Two gyda Connor Scott, bachgen 17 mlwydd oed, yn cipio'r wobr am ei berfformiad cyfoes gwefreiddiol.


Roedd *Incarnations: India in 50 Lives* yn gyfres fawr ar BBC Radio 4, a ddarlledwyd ar y BBC World Service hefyd, lle bu'r Athro Sunil Khilnani, Cyfarwyddwr y King's India Institute yn Llundain, yn tywys gwrandawyr ar daith gynhyrfus o'r India gyntefig i'r unfed ganrif ar hugain drwy straeon go iawn 50 o unigolion anhygoel.

Daeth y gystadleuaeth leisiol fyd-enwog *BBC Canwr y Byd Caerdydd* yn ôl ym mis Mehefin 2015 gyda'r soprano o Belarus, Nadine Koutcher, yn cipio'r brif wobr. Cafwyd arlwy cynhwysfawr ar BBC Radio 3 a BBC Four yn ogystal â rhaglen ychwanegol ar BBC Four, lle bu Kate Adie yn cyfweld â'r Fonesig Kiri Te Kanawa ynglŷn â'i bywyd a'i gyrfa.

Cyfres ddydd newydd sbon oedd *The Wanted* a gafodd ei datblygu a'i chynhyrchu gan y tîm Ffeithiol yng Nghaerdydd, yn dilyn llwyddiant ein cyfresi trosedd eraill fel *Crimewatch* a *Police 24/7*. Roedd pob pennod gyffrous yn bwrw golwg ar waith dau o heddluoedd prysuraf Prydain wrth iddyn nhw arestio pobl yn ardal Manceinion a Gorllewin Swydd Efrog. Yna ym mis Ionawr, darlledwyd *Bad Dad's Army: The Hatton Garden Heist* - comisiwn BBC Three fu'n olrhain stori criw o ladron, o oed pensiwn, fu'n gyfrifol am y 'lladrad mwyaf yn hanes cyfreithiol Lloegr', gwerth tua £14 miliwn.



**Nadine Koutcher yn ennill BBC Canwr y Byd Caerdydd 2015**



**Paul Dano, Lily James a James Norton yn *War & Peace***

# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Cymru ar S4C

Dechreuodd eleni gydag ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol. Bu *Newyddion 9* ac *Y Sgwrs* yn gwahodd cynulleidfaoedd i ddweud eu dweud wrth i'r rhaglenni deithio o amgylch y wlad, a chyflwynodd Dewi Llwyd ddau rifyn arbennig o'r rhaglen drafod *Pawb a'i Farn*. Darlledwyd y rhaglen ganlyniadau dros nos ar BBC Radio Cymru ar yr un pryd, gan ddarparu dadansoddi cynhwysfawr wrth i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.

Yn ogystal â'n gwasanaethau gwleidyddol wythnosol a newyddion dyddiol, darparwyd nifer o raglenni newyddion ychwanegol yn ystod y flwyddyn, ar bynciau fel argyfwng Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wrth iddo wynebu mesurau arbennig, ymchwiliad i effaith preifateiddio gwasanaethau achub mynydd yng Nghymru, yr argyfwng mudo ar draws Ewrop gyda rhaglen fyw o wlad Groeg, yn ogystal â rhaglen a ddarlledwyd o Baris yn dilyn yr ail ymosodiad terfysgol ar y ddinas ym mis Tachwedd. Ym mis Medi 2015, cafodd *Newyddion 9* ei chydnabod gan BAFTA Cymru am y darllediadau yn dilyn ymosodiadau Charlie Hebdo yn gynharach yn y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr, daeth *Pobol y Cwm* yn ôl i'r sgrîn pum noson yr wythnos, ac yn *Nadolig Llawen Cwmderi*, cafwyd cyfle i edrych yn ôl ar Nadoligau Cwmderi dros y degawdau. Mae'r gyfres yn parhau i weithio'n galed i adlewyrchu materion amrywiol ac anodd, a chafodd ei chydnabod unwaith eto yng nghategori Sebon a Drama Parhaus Gwobrau Mind Media, y tro yma am bortread Iolo, dyn ifanc sy'n delio ag OCD.

Gan nad oedd gemau rhyngwladol yr hydref oherwydd Cwpan Rygbi'r Byd, cafwyd gemau cyfeillgar yn erbyn yr Eidal ac Iwerddon ar *Clwb Rygbi Rhyngwladol* yn ystod yr haf. Parhaodd yr arlwy o gystadleuaeth y Pro12 ar brynhawn Sul yn *Clwb Rygbi*, ac er y newidiadau yn y ffordd y caiff hawliau eu dosbarthu ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, sydd bellach wedi'u rhannu rhwng BBC ac ITV, roeddem yn gallu darlledu pob un o gemau Cymru yn fyw ar S4C.

Eleni, ychwanegwyd uchafbwyntiau'r gêm bêl-droed gyfeillgar rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon yn ogystal â sylw llawn i gêm Casnewydd yn erbyn Blackburn yng Nghwpan yr FA. Cynhyrchwyd hefyd rhaglen deyrnged arbennig *Jonah Lomu: Cawr Y Crysau Duon*.

Yn ogystal ag uchafbwyntiau cystadleuaeth *BBC Canwr y Byd Caerdydd*, cafwyd sawl rhaglen ddogfen o ansawdd uchel hefyd. Dilynodd *Gorwelion: Sesiynau Maida Vale*, sawl un o'r bandiau a gymerodd ran yng nghynllun *Gorwelion* 2015. Nododd dwy raglen ddogfen 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Gwireddodd Huw Edwards freuddwyd oes wrth ddilyn yn ôl traed yr arloeswyr yn *Patagonia Huw Edwards*, tra dilynodd *Patagonia: Taith y Gerddorfa*, aelodau Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ar eu cyfnod preswyl ym Mhatagonia yn ystod eu taith o Dde America.


Portread Dyfan Rees o Iolo White yn *Pobol y Cwm*


Huw Edwards yn cwrdd â'r ffarmwr Alejandro Jones ym Mhatagonia

# Perfformiad y gwasanaethau

## Newyddion a Materion Cyfoes

Gwleidyddiaeth wnaeth ddechrau a gorffen y flwyddyn newyddion - gan ddechrau gydag etholiad San Steffan, ac Etholiad y Cynulliad 12 mis yn ddiweddarach. Ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2015, daeth pob rhaglen a gwasanaeth at ei gilydd ar gyfer taith o amgylch Cymru, gyda phabell BBC Cymru yn cael ei chodi mewn amryw o leoliadau. Roedd yn gyfle i greu effaith go iawn, wrth i newyddiadurwyr glywed am y materion oedd yn effeithio ar ein cynulleidfa mewn cyfres o raglenni a digwyddiadau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ymgysylltu â chynulleidfa iau, recriwtiwyd *Cymry Ifanc*, grŵp o 20 o bobl ifanc fu'n rhan o'n rhaglenni yn y ddwy iaith. Darlledwyd hefyd ddadl i bobl ifanc ar BBC One Wales a BBC Radio Cymru, a chafwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar wahân.

Ar noson yr etholiad, darlledwyd y rhaglenni Cymraeg a Saesneg ar deledu a radio gyda'i gilydd am y tro cyntaf er mwyn gallu cynnig gwasanaeth digidol llawn. Cafwyd llif byw yn y ddwy iaith dros nos, gyda'r dudalen fyw Saesneg yn cael ei gweld gan 100,000 o ddefnyddwyr. Cafodd ein cyfrif @walespolitics ar Twitter ei weld dros 400,000 o weithiau dros nos a'r diwrnod canlynol.

Bron i 12 mis yn ddiweddarach, roedd ein timau nôl ar y ffordd ac yn paratoi ar gyfer etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Ceisiwyd egluro ble a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud yng Nghymru, a phwy sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus. Roedd *Cymry Ifanc 2016 a Deall Cymru* yn ymgyrchoedd allweddol i hysbysu'r gynulleidfa ar bob platfform. Lansiwyd tudalen Etholiad Cymru ar ein gwefan gyda gwybodaeth gefndir, newyddion dyddiol a fideos a anelwyd at gynulleidfa iau - ffrwyth cydweithio rhwng Uned Wleidyddol BBC Cymru a Newsbeat BBC Radio 1.

Bu'r gwaith o ganolbwyntio ein hymdrechion golygyddol i wella a datblygu gwasanaethau digidol yn thema fawr yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi cryfhau'r gwasanaeth digidol craidd, gyda mwy o oriau ac ymdrech bwrpasol ar gyfer straeon gwleidyddol a straeon y gohebwyr. Mae cynnwys newyddion BBC Cymru yn cyrraedd 2.1 miliwn o borwyr bob wythnos ar gyfartaledd. Rydym wedi datblygu ein gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd sy'n cael eu tan-gynrychioli ar blatfformau o'u dewis nhw, yn enwedig Facebook a Twitter. Mae swyddi newydd wedi canolbwyntio ar wella newyddiaduraeth ddata a materion cyfoes digidol a fideo.

Mae cyrhaeddiad BBC Cymru Fyw wedi parhau i dyfu, gan ddangos uchelgais ac ymdrech reolaidd i geisio torri straeon. Enillodd wobr Gwefan Newyddion y Flwyddyn yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru. Mae ei sgôr Gwerthfawrogiad Cynulleidfa wedi cynyddu o 61 i 81 allan o 100 dros gyfnod o 16 mis, gyda ffigyrau wythnosol y gwasanaeth yn parhau i dyfu, ar ôl treblu ei sylfaen defnyddwyr yn y flwyddyn gyntaf.

Mae Newyddion BBC Cymru hefyd wedi anfon timau i ohebu ar straeon rhyngwladol heriol. Cyflwynodd *Newyddion 9* raglen fyw arbennig o Baris ar ôl yr ymosodiadau terfysgol yn y Bataclan, a laddodd 130 o bobl, lai na blwyddyn ar ôl i'r rhaglen ddarlledu oddi yno ar ôl ymosodiadau Charlie Hebdo.

Enillodd ein cyfres materion cyfoes *Week In Week Out* wobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol am *Life After April*. Cafwyd cipolwg pwerus wrth i Paul a Coral Jones adael y camerau i mewn i'w cartref am y tro cyntaf.

Mae'r rhaglen newyddion *BBC Wales Today*, yn parhau i berfformio'n dda ar BBC One Wales, gyda 52% o oedolion yng Nghymru yn troi at y rhaglen am 3 munud o leiaf bob wythnos ar draws pob bwletin. Gweithiodd yn galed i gael lleisiau newydd o gymunedau sydd wedi'u tan-gynrychioli, wrth ymdrin â straeon fel marwolaeth Reyaad Khan o Gaerdydd yn sgil ymosodiad drôn a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU.



**Bethan Rhys Roberts yn llywio arlwy BBC Cymru ar noson etholiad 2015 gyda'r Golygydd Gwleidyddol Nick Servini**



**Jamie Owen yn cyflwyno BBC Wales Today o'r Barri ar daith etholiad 2015**

# Perfformiad y gwasanaethau

BBC SPORT

## Chwaraeon BBC Cymru

Bu'n flwyddyn gref ar gyfer Chwaraeon y BBC ar draws ein holl blatfformau a gwasanaethau wrth i ni ddarparu chwaraeon byw a newyddion chwaraeon o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ar draws Cymru.

Heb os, uchafbwynt y flwyddyn ddiwethaf oedd ein harlwy o lwyddiant tîm pêl-droed Cymru yn Euro 2016, ar ôl dod â degawdau o siom i ben a chyrraedd pencampwriaeth ryngwladol o bwys am y tro cyntaf ers Cwpan y Byd 1958.

Drwy gydol y flwyddyn, darparwyd sylwebaeth radio o bob un o gemau Cynghrair a Chwpan yr FA Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam. Crëodd ddiswyddiad Garry Monk a goroesiad yr Elyrch yn yr Uwch Gynghrair straeon mawr. Roedd arlwy teledu byw, radio a digidol o gemau cyfeillgar Cymru yn erbyn Yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon a'r Wcráin hefyd yn rhan o'n portffolio.

Unwaith eto, cafwyd cyffro yng Nghwpan Rygbi'r Byd, gyda BBC Cymru yn darparu rhaglenni cynhwysfawr ar ein holl wasanaethau. Profodd *Scrum V Rugby World Cup Special* mai dyma'r rhaglen i'w gwylio ar gyfer dadansoddi gemau Cymru, gyda 160,000 o wylwyr ar gyfartaledd.

Gwelodd bencampwriaeth y Chwe Gwlad 2016 ddechrau partneriaeth ddarlledu chwe blynedd newydd rhwng y BBC ac ITV. O dan y trefniant, bydd gemau cartref rhyngwladol Cymru, yn ogystal â gemau oddi cartref yn Ffrainc a'r Alban, yn parhau ar y BBC. Mae rygbi rhyngwladol yn parhau'n ganolbwynt i gynulleidfaoedd yng Nghymru gyda'r darllediad teledu byw o'r gêm rhwng Cymru a'r Alban yn cyrraedd miliwn o wylwyr. Parhawyd i ddarparu darllediadau byw o holl gemau'r Chwe Gwlad ar gyfer S4C yn ogystal â gemau y Guinness Pro12 ar ddydd Sul a gêm Cwpan yr FA rhwng Casnewydd a Blackburn.

Mae ein hymrwymiad i newyddion chwaraeon dyddiol ar deledu a radio yn Gymraeg ac yn Saesneg wedi parhau, a gwelwyd twf cyson mewn cynnwys digidol ac ar-lein. Mae gwasanaeth chwaraeon ar-lein BBC Cymru bellach yn cyrraedd 1.2 miliwn o borwyr unigryw bob wythnos ar gyfartaledd, gan gyrraedd uchafswm o 3.2 miliwn ddechrau mis Hydref. Roedd tua 60% o'r defnydd hwnnw ar ddyfeisiau symudol neu dabled. Yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd a gêm Cymru yn erbyn Bosnia yn Euro 2016, gwelwyd cyfrif Facebook Chwaraeon BBC Cymru 3.8 miliwn o weithiau ac mae gan ein cyfrif Twitter @BBCWalesSport fwy na 66,000 o ddilynwyr.

Atgyfnerthwyd ein hymrwymiad parhaus i gynnig amrywiaeth go iawn i'n cynulleidfaoedd gyda'n darllediad o Hanner Marathon y Byd yng Nghaerdydd ym mis Mawrth, Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref a Phencampwriaeth Snwcer Agored Cymru.

O ran ffilmiau, ymhlith yr uchafbwyntiau, darlledwyd *Mr Calzaghe*, stori'r bocsiwr chwedlonol, a *Jack to a King*, stori anhygoel tîm pêl-droed Abertawe wrth iddyn nhw gyrraedd yr uchelfannau yn yr Uwch Gynghrair.

Unwaith eto, rydym wedi cydweithio'n agos â Chwaraeon Cymru, y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu ac hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol, i gynnal seremoni flynyddol Gwobrau Chwaraeon Cymru.



**Tanni Grey-Thompson yn cyflwyno arlwy Hanner Marathon Caerdydd ar BBC Radio Wales**




**Y gohebydd pêl-droed Rob Phillips fu'n dilyn llwyddiant Chris Coleman a'r tîm yn cyrraedd Euro 2016**

# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Radio Wales

Mae BBC Radio Wales wedi cynnig cyfuniad o newyddiaduraeth, adloniant, diwylliant a digwyddiadau i wrandawyr yn ystod 2015/16 - y flwyddyn lle cyrhaeddodd tîm pêl-droed Cymru bencampwriaeth fawr am y tro cyntaf ers 58 o flynyddoedd. Rhoddodd yr orsaf sylw i bob gêm, gartref ac oddi cartref, a chomisiynwyd cyfres o raglenni i nodi'r achlysur, gan gynnwys rhaglen archif o ddigwyddiadau a cherddoriaeth ers 1958.

Rhoddwyd sylw cynhwysfawr i Etholiad Cyffredinol 2015, gan gynnwys taith pythefnos o hyd, lle darlledwyd ein rhaglenni *Good Morning Wales* a *Good Evening Wales* yn fyw o bob rhan o Gymru i glywed beth roedd yr etholwyr yn chwilio amdano gan wleidyddion. I fynd i'r afael â'r dryswch ymhlith pleidleiswyr ynglŷn â pha feysydd polisi oedd wedi'u datganoli a pha rai sy'n parhau o dan reolaeth San Steffan, ymunodd BBC Radio Wales â'r ymgyrch addysg *Deall Cymru* yn y cyfnod yn arwain at Etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Rhoddwyd gwêdd newydd i amserlen BBC Radio Wales ym mis Chwefror 2016, er mwyn cynnig cymysgedd well o gerddoriaeth a sgwrs gydol y dydd. Yn ystod yr wythnos waith, mae Wynne Evans yn cyflwyno rhaglen newydd yn y bore, gyda Jason Mohammad yn symud i 9am a Mal Pope yn cyflwyno sioe frecwast newydd yn ystod yr wythnos. Fel rhan o'r newidiadau, mae Dot Davies a Vicki Blight hefyd wedi ymuno â'r orsaf.

Daeth sioe sgetsys comedi llwyddiannus BBC Radio Wales, *Here be Dragons*, yn ôl am ail gyfres, yn ogystal â chymeriad comedi John Sparkes, *Siadwel*. Darlledwyd *The Harri Parris* am y tro cyntaf, sydd wedi llanw theatrau ledled Cymru gyda'u sioe lwyfan. Mae *Gein's Family Giftshop*, grŵp sgets, hefyd yn argoeli i fod yn llwyddiannus yn y byd comedi.

Darlledwyd o Hanner Marathon y Byd yng Nghaerdydd, lle bu Mo Farah a rhai o redwyr pellter hir gorau'r byd yn cymryd rhan. Ac wrth i Gymru chwarae - a cholli yn y pen draw - yn erbyn Lloegr yng Nghwpan Rygbi'r Byd, cyflwynodd Eddie Butler gyngerdd arbennig, gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, i ail-adrodd stori un o fuddugoliaethau mwyaf Cymru yn erbyn yr hen elyn yn 2013.

Cafwyd darllediadau cynhwysfawr o *BBC Canwr y Byd Caerdydd*, gyda'r cantorion opera Wynne Evans a Rebecca Evans yn cyflwyno rhaglenni nosweithiol gyda'r bwriad o ehangu apêl y gystadleuaeth. Cafodd gwrandawyr hefyd gyfle i glywed rhai o wyliau cerddorol yr haf, gan gynnwys y Super Furry Animals yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd. Yn ogystal, darlledwyd set byw y Manic Street Preachers o Gastell Caerdydd yn llawn ar yr orsaf, i gyd-fynd â Diwrnod Cerddoriaeth y BBC.

Nodwyd canmlwyddiant y bardd rhyfel, Alun Lewis, a brwydr Gallipoli yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gyda rhaglenni arbennig; yn ogystal â 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Daeth nifer o raglenni BBC Radio Wales yn fyw o Ŵyl Lenyddol y Gelli ym Mhowys, gan gynnwys darlith flynyddol Patrick Hannan, a draddodwyd gan yr Athro Laura McAllister.

Bu *Share Your Welsh* - ymgyrch gyntaf BBC Radio Wales ar gyfer dysgwyr Cymraeg ers dros ddegawd - yn gyfle i Dot Davies a Huw Stephens deithio o amgylch y wlad i glywed straeon ysbrydoledig pobl oedd yn dysgu'r iaith.



Arlwy newydd BBC Radio Wales




Cyn-gapten rygbi Cymru Eddie Butler yn edrych ymlaen at Gwpan Rygbi'r Byd

# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Radio Cymru

Mae BBC Radio Cymru yn parhau i ddenu bron i ddwy ran o dair o'r holl wylio a gwrando ar raglenni Cymraeg. Yn debyg i'r llynedd, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y gynulleidfa ganol y flwyddyn, gan godi unwaith eto yn y chwarteri diweddar, gyda chyrhaeddiad a chyfran yr orsaf yn cryfhau. Mae twf digidol yr orsaf wedi parhau i gynyddu yn 2015-16, gyda chynnydd o dros 20% yn nifer y defnyddwyr unigryw wythnosol ar gyfer cynnwys ar-lein Radio Cymru.

Canolbwyntiodd ein gwasanaeth newyddion ar ogwydd Gymreig straeon cenedlaethol a rhyngwladol pwysig, tra'n dod o hyd i gyfleoedd i fynd o dan groen straeon lleol cryf. Bu'r orsaf yn teithio ar hyd a lled y wlad yn ystod yr Etholiad Cyffredinol, a gweithio'n galed i ddod o hyd i siaradwyr Cymraeg ledled y byd wrth adrodd y stori mudo i Ewrop ac i Gymru.

Rhodri Llywelyn oedd cyflwynydd newydd y rhaglen chwaraeon *Camp Lawn* ar ddydd Sadwrn, a gyda'r timau pêl-droed a rygbi rhyngwladol yn perfformio'n dda, mae'r orsaf wedi bod yn dyst i sawl uchafbwynt eleni. Dilynwyd y tîm pêl-droed cenedlaethol bob cam o'r ffordd wrth iddyn nhw lwyddo i gyrraedd Euro 2016. Yn ogystal, ymunodd Jonathan Davies â thîm sylwebu Cwpan Rygbi'r Byd, a rhoddwyd cryn sylw ar y cyfryngau cymdeithasol wrth iddo ddathlu buddugoliaeth Cymru yn erbyn Lloegr yn fyw ar y rhaglen.

Gyda'r gynulleidfa yn dweud bod y rhaglenni hynny 'sy'n cadw cwmni' yn bwysig iddyn nhw, ceisiwyd cynyddu'r pwyslais ar ddarlledu byw. Cyhoeddwyd cynlluniau i ddarlledu rhaglen John Hardy yn y bore bach am 5.30am, gydag Aled Hughes yn cymryd awenau'r rhaglen fore. Ail-wampiwyd amserlen y penwythnos, gyda'r pwyslais ar y byw a'r bywiog ar ddydd Sadwrn a'r celfyddydol a nostalgia ar ddydd Sul. Mae ein rhaglenni cerddorol gyda'r nos wedi denu'r arwr pync Rhys Mwyn i ymuno â'r tim cyflwyno. Penderfynwyd hefyd symud yr arlwy gwerin o brynhawn Sul i ymuno â'r tîm cerddorol gyda'r nos yn ystod yr wythnos.

Mae'r celfyddydau, diwylliant ac ysgrifennu newydd wedi parhau i fod wrth galon yr amserlen, gyda chyfres o raglenni am yr awdur plant T Llew Jones, lleisiau Cymraeg o'r Rhyfel Mawr a 50 mlynedd ers boddi Cwm Tryweryn.

Ar Ddiwrnod Cerddoriaeth y BBC, ymunodd BBC Radio Cymru â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC i nodi 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Clywodd gwrandawyr BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales a BBC Radio 2 y foment pan osodwyd *Guinness World Record* newydd am y pellter hiraf rhwng dau berson yn canu deuawd - 7000 o filltiroedd.

Yn dilyn ein hymgyrch i ddod o hyd i 40 cân fwyaf poblogaidd y genedl, fe'u rhyddhawyd ar 3 cryno ddisg. Ac am y tro cyntaf, cafwyd ffrwd byw o wobrau cerddorol Y Selar yn Aberystwyth, mewn partneriaeth â S4C. Rhannwyd y wobr Cyflwynydd Gorau rhwng dau o'n cyflwynwyr - Huw Stephens a Lisa Gwilym.



**Shân Cothi yn dathlu torri record byd gyda'r ddeuawd 7000 milltir**


**Aled Hughes yn cyflwyno rhaglen fore BBC Radio Cymru o ddydd Llun i ddydd Gwener**

# Perfformiad y gwasanaethau

BBC ONLINE

## Ar-lein a Dysgu


Eleni, gwelwyd rhai newidiadau mawr yn y ffordd mae ein cynulleidfaoedd yn gwylio cynnwys BBC Cymru. Ar gyfartaledd, daeth 3.46 miliwn o borwyr unigryw wythnosol at ein cynnwys ar bbc.co.uk eleni, gyda Newyddion a Chwaraeon yn arwain y ffordd. O fewn hynny, mae defnydd o'r BBC iPlayer wedi cynyddu'n sylweddol i 290,000 o ddefnyddwyr wythnosol ar gyfartaledd (i fyny o 74,000 yn 2014-15) diolch i raglenni sy'n apelio at gynulleidfaoedd iau fel *Young, Welsh and Pretty Skint*.

O ran ein cynnwys Cymraeg, gwelwyd cynnydd mawr hefyd yn nifer y porwyr wythnosol, i fyny o 89,000 i 193,000. Mae'r gwasanaeth ar-lein Cymraeg newydd, BBC Cymru Fyw, wedi perfformio'n arbennig o dda, gydag amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol, gan ddenu 45,000 o borwyr wythnosol ar gyfartaledd. Elfen bwysig arall oedd blwyddyn lawn gyntaf S4C ar BBC iPlayer. Yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot, bydd y sianel yn parhau ar BBC iPlayer tan ddiwedd cyfnod nesa ffi'r drwydded yn 2021-22.


Gwelwyd datblygiadau mewn dau faes yn ystod y flwyddyn. O ran y cyfryngau cymdeithasol, mae dilynwyr cyfrifon Facebook a Twitter BBC Cymru wedi mwy na dyblu i 1,016,000, i fyny o 477,000 o'r flwyddyn flaenorol. Dyma newid mawr yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd iau yn benodol yn dod o hyd i'n cynnwys ar-lein. Yn debyg, mae cynulleidfa Twitter *Doctor Who* wedi cynyddu i 1.5 miliwn o ddilynwyr, i fyny o 1.2 miliwn o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi rhoi llwyfan i arloesi mewn Drama a Chwaraeon - gyda lansio cynnwys 'rhithwir' 360 gradd ar gyfer *Hinterland*, rygbi'r Chwe Gwlad a Hanner Marathon Caerdydd.

Yr ail ddatblygiad yw'r symud tuag at ddyfeisiau symudol. Bellach, dyma'r brif ffordd y mae ein cynulleidfaoedd yn dod ar draws ein cynnwys ar-lein. Mae ffonau clyfar a thabledi yn 62% o'r gynulleidfa gyda chyfrifiaduron a gliniaduron yn gostwng i 33%. Mae setiau teledu clyfar, o nifer gymharol fach y llynedd, wedi cynyddu i 5% o'r gynulleidfa ar-lein. Arweiniodd y symudiad hwn tuag at ddyfeisiau symudol at ail-lansio hafan bbc.co.uk er mwyn i'r hafan allu newid maint yn awtomatig ar gyfer cynulleidfaoedd symudol. Lansiwyd hefyd nodweddion symudol newydd ar gyfer yr ap Newyddion yn ogystal ag ap newydd sbon ar gyfer *BBC Bitesize* i gyd-fynd â chyfnod adolygu TGAU yn 2016.

Bu'n flwyddyn fawr hefyd ar gyfer ein gwaith Dysgu, gyda lansiad y *BBC micro:bit*, cyfrifiadur bach o faint cerdyn credyd, sy'n ceisio gwneud i'r maes codio beth wnaeth y BBC Micro i'r byd cyfrifiaduron nôl yn yr 1980au. Mae dros filiwn o micro:bits wedi'u dosbarthu ar draws y DU, ac mae pob disgybl 11 oed yng Nghymru wedi derbyn un - gan ysgogi ton o greadigrwydd sy'n ysbrydoli pobl ifanc i fwrw ati gyda codio. Datblygwyd *BBC Bitesize* hefyd yn 2015-16 gyda chynnwys dwyieithog newydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer Mathemateg a Rhifedd, yn ogystal â chynnwys newydd ar gyfer Saesneg (Llenyddiaeth), Saesneg (Iaith), Cymraeg (Iaith) a Chymraeg (Llenyddiaeth).



**Derbyniodd disgyblion 11 oed yng Nghymru gyfrifiadur bach *BBC micro:bit***




**Cynhyrchwyd cynnwys *BBC Bitesize* newydd i gefnogi disgyblion ar draws Cymru**

# Perfformiad y gwasanaethau

Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

## Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

Yn ystod hydref 2015, cynhaliodd y Gerddorfa ei thaith fwyaf uchelgeisiol hyd yma, drwy deithio i Batagonia i nodi 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa. Mewn deg diwrnod, cynhaliodd ein cerddorion weithdai a dosbarthiadau ar gyfer 29 o ysgolion, pedwar cerddorfa ieuenctid a chymunedol, chwe chôr a dosbarthiadau meistr. Bu'r Gerddorfa hefyd yn chwarae mewn Noson Lawen, dwy gyngerdd fawreddog a gwasanaeth 'cerddorion ar-alw' - gan berfformio i bobl yn eu cartrefi. Mae gwaith cymunedol y Gerddorfa, gyda'r cerddorion yn teithio cannoedd o filltiroedd ar draws tirwedd garw i gynnig profiadau cerddorol bythgofiadwy, yn gadael gwaddol sylweddol i bobl ifanc a cherddoriaeth amatur yn Chubut.

Aeth y Gerddorfa yn ei blaen i berfformio chwe chyngerdd pellach mewn lleoliadau ar draws yr Ariannin, Chile ac Uruguay. Rhannwyd y profiad gyda chynulleidfaoedd nôl adref ar BBC Radio 3, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru a thrwy ddwy raglen ddogfen ar BBC Two Wales a S4C. Yn dilyn y daith, perfformiodd y Corws premiere byd o ddarn gan Mark Bowden a ysbrydolwyd gan Batagonia *We Have Found a Better Land*. Fel rhan o Ddiwrnod Cerddoriaeth y BBC 2015, perfformiwyd Calon Lân gan Shân Cothi a'r Gerddorfa, gydag Andres Evans ym Mhatagonia.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd Xian Zhang fel y Prif Arweinydd Gwadd. Gan ddechrau ym mis Medi gyda chyngherddau yng Nghaerdydd a'r Drenewydd, Xian yw'r arweinydd benywaidd cyntaf i gael rôl o'r fath gydag unrhyw un o gerddorfeydd y BBC. Rydym hefyd yn falch iawn bod cytundeb Thomas Søndergård wedi'i ymestyn, a bydd yn parhau fel Prif Arweinydd am ddwy flynedd arall.

Yn y BBC Proms, cafwyd chwe pherfformiad gan gynnwys premiere byd o *Pan*, o dan arweiniad Søndergård ac a gyfansoddwyd gan B Tommy Andersson. Bu'n benllanw anhygoel i'w flwyddyn fel Cyfansoddwr Cysylltiedig y Gerddorfa. Hefyd, cynrychiolwyd Cymru gan y Corws yn Noson Gynta'r Proms, ac Abertawe oedd cartref Proms yn y Parc eleni.

Yng Nghymru, mae perfformiadau cofiadwy Søndergård wedi cynnwys *The Bells* gan Rachmaninov ochr yn ochr â cherddoriaeth newydd gan y Cyfansoddwr Cysylltiedig newydd Huw Watkins, *Requiem* Mozart, a chyngerdd San Ffolant o gerddoriaeth a ysbrydolwyd gan Romeo a Juliet. Bu Thomas hefyd yn arwain y Gerddorfa yn *BBC Canwr y Byd Caerdydd 2015*, ac rydym yn edrych ymlaen at berfformio unwaith eto gyda'r enillydd Nadine Koutcher yn ystod yr haf.

A hithau'n haf prysur, perfformiodd y Gerddorfa mewn cyngherddau *Ten Pieces* i ysgolion yn y Drenewydd a Glannau Dyfrdwy, a hynny cyn dau Prom *Ten Pieces* ym mis Gorffennaf; parhaodd y prosiect gyda gweithdy cerddorfaol ym Mangor fel rhan o daith y gwanwyn ledled BBC Cymru. Fel rhan o'r cynllun *BBC Cer i Greu*, treuliodd ein cerddorion ddiwrnod yn creu cerddoriaeth mewn gweithdy offerynnol yng Nghaernarfon.

Yn deyrnged i un o gyfansoddwyr amlycaf Cymru, Grace Williams, roedd ein cyngerdd Gŵyl Ddewi yn cynnwys *Missa Cambrensis* - dyma'r ail dro yn unig i'r darn gael ei berfformio. Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod, rhoddwyd sylw i gerddoriaeth gerddorfaol gorau Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Ngŵyl Gerdd Bangor. Bu Cyfansoddi:Cymru, a ddisgrifiwyd gan y Wales Arts Review fel profiad 'hynod werthfawr', yn gyfle i gyfansoddwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd glywed eu cerddoriaeth yn cael ei berfformio gan gerddorion proffesiynol, gyda chyngor ein tîm cyfansoddi.

Rydym wedi parhau i weithio gyda chynhyrchwyr mewnol ac annibynnol ar gyfer traciau sain teledu a ffilm. Ymhlith prosiectau eleni oedd *War & Peace* ac *A Midsummer Night's Dream* ar gyfer BBC One yn ogystal â'r trac sain ar gyfer ffilm newydd Louis Theroux. Ar ôl deng mlynedd fel band preswyl *Doctor Who*, perfformiwyd o flaen degau o filoedd o ffans ar draws y wlad gyda thaith *Doctor Who Symphonic Spectacular*.



**Cyhoeddwyd Xian Zhang fel Prif Arweinydd Gwadd**




**Prom *Ten Pieces* yn y Royal Albert Hall**

# Perfformiad y gwasanaethau

## Partneriaethau

*Cer i Greu* oedd neges BBC Cymru wrth gytuno ar Bartneriaeth Gwerth Cyhoeddus newydd am y dair blynedd nesaf gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Trefnodd y ddau sefydliad cenedlaethol benwythnos o ddigwyddiadau i helpu pobl archwilio eu creadigrwydd a rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Cynhaliwyd 115 o ddigwyddiadau ar draws Cymru, gyda darllediadau byw ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales o'n digwyddiad mwyaf yn Galeri, Caernarfon.

Yn ei drydydd blwyddyn, mae'r cynllun *Gorwelion*, sy'n cael ei ariannu ar y cyd, wedi parhau i hyrwyddo a datblygu artistiaid cerddoriaeth gyfoes disgleiriaf Cymru. Yn ystod haf 2015, aeth y cynllun â cherddoriaeth Gymreig dros y ffin, drwy ymddangos ar lwyfannau yn Great Escape yn Brighton, Liverpool Sound City a Truck Festival yn Rhydychen. Datblygwyd perthynas gyda BBC Radio 1 a BBC Radio 2, gyda'r canwr-gyfansoddwr Dan Bettridge yn cael ei hyrwyddo gan y DJ chwedlonol Bob Harris yn ystod sesiwn gyntaf BBC Introducing ar gyfer BBC Radio 2 yn Maida Vale. Ar ddechrau 2016, ymunodd 12 o artistiaid newydd â'r cynllun, gydag amrywiaeth eang o arddulliau cerddorol, gan gynnwys yr artist hip-hop Reuel Elijah, fu'n perfformio'n ddiweddar yn *Big Weekend* BBC Radio 1, a'r artist cyntaf erioed o Gymru i ymddangos ar playlist BBC Radio 1Xtra am wythnos gyfan. Mae'r band ffync Afro Cluster hefyd wedi'i ddewis i berfformio yn Glastonbury.

Ym mis Medi, cydweithiwyd gyda Chyngor Abertawe i gynnal Proms yn y Parc, noson o ddathlu cerddorol o dan arweiniad Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ym Mharc Singleton.

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, parhawyd i weithio'n agos gyda S4C, sy'n darlledu 616 awr o raglenni Cymraeg a gynhyrchwyd gan BBC Cymru. Bu'r ail gyfres o'n cyd-gomisiwn drama, *Hinterland / Y Gwyll*, a ddarlledwyd ar BBC One Wales, S4C a BBC Four, yn parhau i ddenu canmoliaeth, gyda'n harlwy newyddion a chwaraeon yn parhau i fod wrth galon amserlen S4C.

Rydym wedi gweithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i ddod â holl fwrlwm prifwyl Maldwyn a'r Gororau i gartrefi ar draws Cymru. Cynhyrchodd BBC Cymru 90 awr o gynnwys teledu gwreiddiol byw yn Gymraeg, yn ogystal â rhaglenni uchafbwyntiau ychwanegol yn Gymraeg a Saesneg. Rhoddwyd sylw i bob rhan o'r Maes ar BBC Radio Cymru a BBC Cymru Fyw, a ddarlledodd 110 a 70 awr o gynnwys byw yr un.

Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru wedi parhau i fwynhau rygbi rhyngwladol a rhanbarthol ar wasanaethau BBC Cymru, diolch i'n partneriaeth ddarlledu gydag Undeb Rygbi Cymru, y Chwe Gwlad a'r Pro12. Trefnwyd Gwobrau Chwaraeon Cymru gyda Chwaraeon Cymru er mwyn cydnabod talentau chwaraeon elite ac ar lawr gwlad.

Yn ein hymdrech i gefnogi uchelgais Cymru i fod yn wlad greadigol, sefydlwyd Caerdydd Creadigol gyda Phrifysgol Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru a Chyngor Caerdydd. Gweithiodd BBC Cymru hefyd i feithrin cysylltiadau agosach rhwng ysgolion a'r sector greadigol fel rhan o Bartneriaeth Addysg Caerdydd Creadigol.

Yn ogystal â hynny, cynigiodd BBC Cymru gyfleoedd hyfforddi ym maes sgiliau digidol i tua 200 o bobl ddiwaith yng Nghymru, ar ôl lansio cynllun hyfforddi *BBC Make it Digital* mewn partneriaeth unigryw gyda Llywodaeth Cymru a Llywodraeth y DU.




**Artist hip-hop *Gorwelion*, Reuel Elijah, ar lwyfan *Big Weekend* BBC Radio 1**




**Dyfarnwyd gwobr Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru i'r seren rygbi Dan Biggar**

## Arolwg y Tîm Rheoli 2015/16 – Cymru

# Edrych ymlaen

### Siartr newydd y BBC a Chymru

Yn ystod cyfnod Adolygu'r Siartr, mae'r BBC wedi bod yn ymgynghori â chynulleidfaoedd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'n cynlluniau yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Fel yr Alban a Gogledd Iwerddon, ein hamcan yw sicrhau bod y broses hon yn ystyried anghenion penodol cynulleidfaoedd y genedl yn llawn a'n rôl holl bwysig wrth gefnogi'r economi greadigol yng Nghymru.

### Adlewyrchu Cymru

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwnaed camau sylweddol i symud cynyrchiadau teledu allan o Lundain. Erbyn diwedd y Siartr hon, byddwn yn cynhyrchu 50% o holl raglenni teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain, gan gynnwys dros 6% yng Nghymru.

Yn y cyfnod Siartr nesaf, bydd y BBC yn parhau gyda'r ymrwymiad unigryw yma, i wario ar gynyrchiadau teledu rhwydwaith yn unol â maint poblogaeth pob cenedl. Does na'r un darlledwr arall sydd wedi ymrwymo i ledaenu ei wariant ar draws y DU i'r graddau yma.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen i'r gwariant yma fynd ymhellach. Er ein bod wedi trawsnewid nifer y cynyrchiadau teledu rhwydwaith a wneir yng Nghymru, rydym hefyd yn derbyn bod y rhaglenni hynny heb wneud digon i adlewyrchu'r genedl yn ôl iddi hi ei hun, ac i weddill y wlad. Yn y Siartr nesaf, rydym am drawsnewid yr effaith ddiwylliannol yma.

Rydym wedi gosod sialens greadigol glir: i adrodd stori'r DU sy'n newid mor gyflym. A'n nod yw, ymhen tair blynedd, y bydd cynulleidfaoedd yng Nghymru yn mwynhau amrywiaeth ehangach o raglenni sy'n adlewyrchu amrywiaeth y genedl yn well, yn lleol ac ar rwydweithiau'r BBC.

Mae angen i ni wneud y cynnydd mwyaf yn y maes ffuglen – dramâu teledu yn bennaf. I wireddu hynny, rydym wedi ymrwymo i gael golygydd comisiynu drama sy'n gyfrifol am bob un o'r cenhedloedd, gan adrodd i Reolwr Comisiynu Drama y BBC.

Bydd y swyddi hyn yn gyfrifol am gael y comisiynau gorau o bob rhan o'r DU ar ein sgrîn. Mae dramâu gwych yn cymryd amser i'w cynhyrchu, felly ni fydd effaith y newidiadau hyn i'w gweld dros nos – ond fe fyddan nhw'n digwydd. Byddwn yn cefnogi'r swyddi hynny drwy gynnig arian datblygu newydd, er mwyn sicrhau bod y syniadau a'r talentau yn cael y cyfle gorau i lwyddo, a sefydlu *BBC Writersroom* – ein rhaglen i ddatblygu ac i weithio gyda thalent ysgrifennu newydd – ym mhob un o'r cenhedloedd hefyd.

Ond nid uchelgais yn unig yw hyn – rydym yn bwriadu gosod targedau y gellir eu mesur, er mwyn cael gwybod os ydym wedi cyflawni'r targedau neu beidio. Yn ogystal â chyrraedd y targed gwariant o 17% ar draws y cenhedloedd datganoledig, byddwn yn gosod amcanion 'portread' ar gyfer pob comisiynydd teledu, fel bod yr holl gynnwys rhwydwaith yn chwarae rhan wrth adlewyrchu bywydau pobl y wlad honno.

I gefnogi'r amcan hwn, rydym hefyd yn bwriadu buddsoddi arian ychwanegol mewn cynnwys teledu Saesneg ar gyfer Cymru. Bydd hwn yn darparu cynnwys o ansawdd ar gyfer y rhai sy'n talu ffi'r drwydded ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau prif-ffrwd, fel BBC One Wales a BBC Two Wales, yn parhau i ddarparu rhaglenni perthnasol a diddorol i gynulleidfaoedd. Lle bo'n bosibl, byddwn am ddefnyddio'r cyllid ychwanegol hwn i fod yn sbardun i ddenu cyllid newydd pellach a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

### Agenda newyddion Cymru

Rydym wedi dweud yn glir y byddwn yn addasu ein harlwy newyddion ym mhob cenedl i adlewyrchu datganoli ehangach a newidiadau yn ein democratiaeth.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd gennym hafan sydd wedi'i deilwra ar gyfer defnyddwyr Newyddion y BBC yng Nghymru – sy'n tanlinellu straeon o'r genedl ymhlith y prif benawdau ar hafan y safle. Rydym am wneud yr un peth gyda BBC iPlayer, gwefan Chwaraeon y BBC a Hafan-ddalen y BBC.

Y cam nesaf yw'r Adolygiad Newyddion yn y cenhedloedd sydd ar y gweill. Rydym yng nghanol adolygiad cynhwysfawr o'r cydbwysedd iawn rhwng y ddarpariaeth newyddion BBC-gyfan (rhwydwaith) a gwasanaethau newyddion pwrpasol ar gyfer y cenhedloedd. Byddwn yn rhannu canfyddiadau'r arolwg hwn maes o law.



**Delwedd artist o bencadlys newydd BBC Cymru yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd**

# Edrych ymlaen


## Cymru wrth galon y BBC

Ochr yn ochr â'n cynlluniau golygyddol, mae Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo ein cynigion y dylai pob cenedl gael ei chynrychioli'n llawn ar y Bwrdd newydd arfaethedig fydd yn rhedeg y BBC – gan ddarparu lleisiau cryf wrth galon y Gorfforaeth. Yn ogystal â hynny, ein bwriad yw creu is-bwyllgor o'r Bwrdd ar gyfer pob cenedl i oruchwylio eu gwasanaethau eu hunain.

Yn ogystal, cefnogwyd ein cynnig y dylai'r BBC gael 'trwydded' ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir i gynulleidfaoedd ym mhob un o'r cenhedloedd, yng nghynlluniau Siartr y Llywodraeth. Os caiff ei weithredu, bydd yn cynnig atebolrwydd clir ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ym mhob un o'r cenhedloedd a mwy o allu i symud adnoddau o fewn gwasanaethau penodol pob cenedl, gan ddatganoli'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach i'r cenhedloedd.

Gyda'i gilydd, bydd y tri newid hwn yn llywodraethiant a goruchwyliaeth y Gorfforaeth yn cael effaith sylweddol. Gyda llais cryf wrth galon y BBC, a system go iawn i ddatganoli'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â rhaglenni a gwasanaethau ar lefel Genedlaethol, bydd y BBC yn cymryd cam sylweddol ymlaen wrth ddatganoli pŵer dros ein gwasanaethau ein hunain ar gyfer y cenhedloedd i'r cenhedloedd.

A bydd pob rhan o'r BBC yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu'r effaith ddiwylliannol rydym yn ei chynnig. Bydd y Bwrdd BBC-gyfan yn adolygu cynnydd bob blwyddyn, ac os nad yw ein cynlluniau'n gweithio, byddwn yn eu gwella.



**Aeth y cyflwynydd tywydd Behnaz Akhgar nôl i'r ysgol ar gyfer *Search for an A****



**Rhannodd Tim Rhys-Evans ei brofiadau personol o salwch meddwl mewn rhaglen ddogfen arbennig**

# Ffeithiau a ffigyrau

## BBC Cymru mewn manylder

| Teledu Saesneg BBC Cymru | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Oriau** | | |
| Rhaglenni gwreiddiol | 641 | 616 |
| Ail-ddarllediadau | 56 | 84 |
| **Cyfanswm** | **697** | **700** |
| £M* | 22.5 | 20.8 |
| Cost yr awr £K** | 35.2 | 33.7 |

| S4C | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Oriau** | | |
| Rhaglenni gwreiddiol | 516 | 564 |
| Ail-ddarllediadau | 100 | 38 |
| **Cyfanswm** | **616** | **602** |
| £M* | 20.3 | 19.7 |
| Cost yr awr £K** | 39.4 | 34.9 |

### Dadansoddiad o'r Cynnyrch (Oriau)

| BBC Cymru<br>Rhaglenni gwreiddiol | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau | 26 | 19 |
| Newyddion Dyddiol, Wythnosol, a Materion Cyfoes | 399 | 386 |
| Chwaraeon a Hamdden | 150 | 150 |
| Addysg, Ffeithiol a Chrefydd | 66 | 61 |
| | **641** | **616** |
| Ail-ddarllediadau | 56 | 84 |
| **Cyfanswm** | **697** | **700** |

| BBC Cymru ar S4C | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau | 168 | 186 |
| Newyddion Dyddiol, Wythnosol a Materion Cyfoes | 264 | 272 |
| Chwaraeon a Hamdden | 81 | 99 |
| Addysg, Ffeithiol a Chrefydd | 3 | 7 |
| Plant | 0 | 2 |
| | **516** | **564** |
| Ail-ddarllediadau | 100 | 38 |
| **Cyfanswm** | **616** | **602** |
| S4C - Cynnyrch Arall (y tu allan i darged y siartr) | 63 | 173 |

| Niferoedd staff (Amser llawn gwirioneddol) | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Cyfwerth ag amser llawn gwirioneddol (yn cynnwys Chwaraewyr cerddorfaol) | 1207 | 1252 |

| BBC Radio Wales | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Oriau** | | |
| Rhaglenni gwreiddiol | 7110 | 7078 |
| Ail-ddarllediadau | 329 | 345 |
| **Cyfanswm** | **7439** | **7423** |
| £M* | 10.3 | 10.6 |
| Cost yr awr £K** | 1.4 | 1.5 |

| BBC Radio Cymru | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Oriau** | | |
| Rhaglenni gwreiddiol | 6305 | 6254 |
| Ail-ddarllediadau | 695 | 682 |
| **Cyfanswm** | **7000** | **6936** |
| £M* | 10.1 | 10.0 |
| Cost yr awr £K ** | 1.6 | 1.6 |

| BBC Radio Wales<br>Rhaglenni Gwreiddiol | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Newyddion a Materion Cyfoes | 2145 | 2184 |
| Cyffredinol | 4965 | 4894 |
| | **7110** | **7078** |
| Ail-ddarllediadau | 329 | 345 |
| | **7439** | **7423** |

| BBC Radio Cymru<br>Rhaglenni Gwreiddiol | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Newyddion a Materion Cyfoes | 1401 | 1306 |
| Cyffredinol | 4904 | 4948 |
| | **6305** | **6254** |
| Ail-ddarllediadau | 695 | 682 |
| | **7000** | **6936** |

| BBC Radio 1 - 5<br>(heb gynnwys cynnyrch cerddorfaol) | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Oriau rhaglenni gwreiddiol | 379 | 369 |
| £M | 1.9 | 1.9 |
| Cost yr awr £K* | 5.0 | 5.5 |

| Cynnwys Cerddorfaol BBC Radio 3 | | |
|---|---|---|
| Oriau rhaglenni gwreiddiol | 104 | 112 |
| £M | 1.4 | 1.3 |
| Cost yr awr £K* | 13.0 | 11.9 |

| Cynnwys BBC Cymru ar gyfer rhwydweithiau teledu'r BBC*** | Oriau rhaglenni gwreiddiol | Gwariant £m | Canran o wariant rhwydwaith y BBC |
|---|---|---|---|
| **2013** | 219 | 55.3 | 6.8% |
| **2014** | 155 | 56.7 | 6.5% |
| **2015** | 299 | 59.2 | 7.1% |

* Gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol yn BBC Cymru, heb gynnwys Hawliau Chwaraeon a dyraniad canolog y BBC o ran Adeiladau a gorbenion eraill sy'n cael eu rhannu. Mae dyraniadau o'r fath yn cael eu cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC a bydd hyn yn cael ei fabwysiadu yn adroddiadau BBC Cymru yn y dyfodol

** Cost yr awr ac eithrio ail-ddarllediadau

*** Yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom o gynyrchiadau teledu dilys yn y flwyddyn galendr

# Y tîm rheoli



Rhodri Talfan Davies
Cyfarwyddwr BBC Cymru



Adrian Davies
Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Saesneg



Sian Gwynedd
Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Cymraeg



Clare Hudson
Pennaeth Cynyrchiadau



Mark O'Callaghan
Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes



Gareth Powell
Prif Swyddog Gweithredol



Richard Thomas
Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd



Rhys Evans
Pennaeth Strategaeth a Digidol



Zoë Church
Uwch Bartner Busnes Adnoddau Dynol

# Cysylltu

Os oes gennych gwestiwn, sylw neu gwŷn ynglŷn â rhaglenni neu wasanaethau BBC Cymru, neu unrhyw agwedd arall o waith y BBC, cysylltwch â'n huned Gwasanaethau Cynulleidfa.

Mae'r holl adborth yn cael ei gofrestru'n ofalus a'i ddosbarthu'n rheolaidd i'r timau golygyddol a'r rheolwyr.

**Ffôn: 03703 500 700**

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9.30am–7.30pm Llun-Gwener (heblaw gwyliau banc). Ni fydd galwadau i'r rhif 0370 yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01/02. Gall galwadau gael eu recordio at ddibenion hyfforddi.

**Gwefan: bbc.co.uk/aboutthebbc/cymruwales/?lang=cy**

**Ysgrifennwch at:**
Gwasanaethau'r Gynulleidfa
BBC Cymru Wales
Bangor
LL57 2BY

**Cwynion:** am ragor o wybodaeth am broses gwyno'r BBC ac i gyflwyno cwyn ar-lein, ewch i

**bbc.co.uk/cwynion**

**Lluniau**
Mae'r lluniau a ddefnyddir yn © BBC, yn cael eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT neu gyda chaniatâd o lefydd eraill. Rhaid gofyn caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint cyn i unrhyw luniau gael eu hatgynhyrchu.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

BBC Cymru Wales
Y Ganolfan Ddarlledu
Caerdydd CF5 2YQ
bbc.co.uk/cymru
© BBC 2016